Gweithgaredd 2: Dau safbwynt gwrthgyferbyniol am anghydraddoldeb

Amcanion dysgu • Gwerthuso dau safbwynt gwrthgyferbyniol am anghydraddoldeb.
Adnoddau • Fideo: *Even It Up* (3 munud) • Taflen Gweithgaredd: Dau safbwynt gwrthgyferbyniol am anghydraddoldeb (un i bob person ifanc) • Dalen o bapur A3 neu bapur siart troi ar gyfer pob grŵp o bedwar neu bump o bobl ifanc • Pennau marcio
Yr amser sy'n ofynnol: 40-50 munud

Mae'r safbwyntiau ar y daflen gweithgaredd wedi'u mynegi mewn ffordd syml a hawdd. Mae'r ddadl yn llawer mwy cymhleth. Er enghraifft, ychydig o bobl a fyddai'n dadlau y dylai unrhyw gymdeithas fod yn gwbl gyfartal.

Cyflwyniad: Beth yw anghydraddoldeb? (5 munud)

- Gofynnwch i'r dosbarth beth yw anghydraddoldeb. A allant roi rhai enghreifftiau o anghydraddoldeb? Pa fathau o anghydraddoldeb sy'n bodoli?

Mae anghydraddoldeb yn niweidiol a gallwn ei leihau (30-40 munud)

- Dangoswch y fideo *Even It Up* i'r dosbarth.
- Rhowch gopi o'r daflen gweithgaredd i bob person ifanc, a darllenwch drwyddi gyda'r dosbarth. Gallech ddangos y lluniau yng Ngweithgaredd 1 i'r dosbarth os nad ydynt wedi gwneud y gweithgaredd hwnnw. Gallech hefyd ofyn iddynt chwilio'n gyflym ar y Rhyngrwyd os byddwch yn teimlo bod arnynt angen rhagor o dystiolaeth. Fel arall, gallent chwilio fel rhan o gam nesaf y gweithgaredd hwn.
- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar neu bump o bobl ifanc, a rhowch ddalen o bapur A3 neu bapur siart troi a phen marcio i bob grŵp. Dylai pob grŵp ysgrifennu'r mater sydd i'w drafod ar frig y ddalen, sef: **"Mae anghydraddoldeb yn niweidiol a gallwn ei leihau."** Yna, dylent dynnu llinell fertigol i lawr canol y ddalen, gan adael lle ar y gwaelod ar gyfer eu casgliadau.
- Gofynnwch i bob grŵp feddwl am gynifer o **ddadleuon o blaid y mater** a **dadleuon yn erbyn y mater** â phosibl. Dylid rhestru'r dadleuon o blaid y mater ar ochr chwith y ddalen, a'r dadleuon yn erbyn y mater ar yr ochr dde. Yna, dylent drafod y mater, gan ddefnyddio'r dadleuon a restrir.
- Ar ôl trafod y mater, dylai pob grŵp geisio cytuno ar rai casgliadau a'u crynhoi ar waelod y ddalen.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

Sesiwn lawn (5 munud)

- Dewch â'r dosbarth nôl ynghyd a gofynnwch i'r grwpiau rannu eu casgliadau, a'u rhesymau drostynt, â'r dosbarth.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.
Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841

Taflen Gweithgaredd am anghydraddoldeb

Dau safbwynt gwrthgyferbyniol

Mae anghydraddoldeb yn naturiol ac yn dda

Mae anghydraddoldeb yn naturiol. Mae rhai pobl yn fwy disglair neu alluog nag eraill. Maent yn haeddu cael eu gwobrwyo'n fwy am fod ganddynt ddoniau arbennig, neu am eu bod yn barod i gymryd risgiau. Mae hyn yn naturiol. Mae'r bobl orau yn cael eu cymell trwy gael eu gwobrwyo'n fwy hael. Felly, mae anghydraddoldeb yn gwneud i gymdeithas weithio'n well.

Mae'r addewid o wobrau mawr yn annog pobl a busnesau i fuddsoddi, arloesi a chymryd risgiau. Mae hyn yn cyflymu twf economaidd ac, yn y pen draw, yn beth da i bawb, gan fod cyfoeth yn "treiddio" i'r tlodion. Dylai pobl allu ennill cymaint ag y mae eu talentau yn ei ganiatáu, a chael dewis sut i wario eu hincwm fel y maent yn dymuno, heb orfod talu gormod o dreth.

Y peth gorau i'w wneud yw peidio ag ymyrryd gormod o ran faint y mae pobl yn cael eu gwobrwyo. Os oes problemau, maent fel arfer yn eu datrys eu hunain dros amser. Ym maes economeg, yr enw ar hyn yw "llaw anweledig".

Nid yw anghydraddoldeb yn naturiol, ac mae'n niweidiol

Nid oes dim naturiol am dlodi. Mae pobl yn cael eu gwobrwyo oherwydd y penderfyniadau a wneir gan bobl bwerus mewn cymdeithas. Er enghraifft, nid oes unrhyw reswm naturiol pam y dylai pêl-droediwr ennill mwy na chynorthwywraig cinio ysgol.

Mae anghydraddoldeb cynyddol yn cael effaith niweidiol ar gyfoeth a lles cyffredinol gwlad. Pan fydd pobl yn cael eu gadael ar ôl mewn tlodi, mae eu hiechyd yn gwaethygu, maent yn llai addysgedig, maent yn dod yn llai cynhyrchiol, ac mae ganddynt lai o arian i'w wario. Mae hyn yn arafu twf economaidd ac yn niweidiol i'r rhan fwyaf o bobl. Mae gwneud yn siŵr bod pawb, pobl a busnesau fel ei gilydd, yn talu eu cyfran deg o dreth yn un ffordd o roi digon o arian i'r llywodraeth fynd i'r afael ag effeithiau tlodi.

Caiff anghydraddoldeb ei lywio gan benderfyniadau pobl bwerus. Os byddwn yn penderfynu ein bod am gymryd camau i leihau anghydraddoldeb, gallwn wneud hynny.

This project has been funded with support from the European Commission. This publication reflects the views only of the author, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein. Project Number: 2014-1-UK01-KA200-001841